Deall Dyneiddiaeth

BETH YW AGWEDD DYNEIDDIAETH TUAG AT DDEALL Y BYD?

Mae'r byd yn lle **naturiol** nid oes ganddo ochr oruwchnaturiol. Ni allaf i weld unrhyw dystiolaeth na rheswm i gredu mewn unrhyw beth goruwchnaturiol.

Mae'r byd yn ddigon **rhyfeddol** hebddo. Rwy'n credu bod dealltwriaeth wyddonol o'r byd o'n cwmpas yn ei gwneud hi hyd yn oed yn fwy rhyfeddol.

JULIAN

Gwyddoniaeth yw'r ffordd orau o ddeall y byd. Mae'n parhau i ofyn cwestiynau ac mae'n chwilio am **dystiolaeth**. Mae gwyddoniaeth yn rhesymegol. Mae'n parhau i brofi ei chanlyniadau i wirio a ydyn nhw'n wir ac mae'n ceisio cywiro ei chamgymeriadau.

HARI

Dylem ni fod yn **rhydd** i gredu beth bynnag rydym ni'n ei ddymuno. Fodd bynnag, mae hynny'n dod â **chyfrifoldeb** i feddwl yn ofalus pam rydym yn credu'r hyn yr ydym yn ei gredu.

LINDSAY

Mae'n rhaid i ni fod yn gyfforddus ag **ansicrwydd**. Efallai na fyddwn ni byth yn gwybod yr ateb i bopeth. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu y dylem ni roi'r gorau i chwilio am atebion. Gall **chwilfrydedd** fod yn un o bleserau mawr bywyd.

ZENA

Dylem ni bob amser chwilio am **esboniadau naturiol**. Yn y gorffennol, roeddem ni'n aml yn dibynnu ar esboniadau crefyddol neu oruwchnaturiol ar gyfer pethau nad oeddem yn eu deall. Fodd bynnag, heddiw, mae llawer o'n cwestiynau wedi eu hateb gan wyddoniaeth. Mae'n bosibl na fyddwn ni byth yn ateb ein holl gwestiynau ynghylch sut mae'r byd yn gweithio, ond nid yw hynny'n golygu na fydd esboniad naturiol, neu fod yn rhaid i ni droi at grefydd neu'r goruwchnaturiol am atebion.

ALEX

Rwy'n **anffyddwraig**. Nid wyf i'n yn credu mewn duw. Yn syml, allaf i ddim gweld unrhyw dystiolaeth na rheswm i gredu ac felly rwy'n bwrw ymlaen â fy mywyd heb boeni amdano.

LAUREN

© HUMANISTS UK 2021